Hawdd ei Deall

Bron Brawf Cymru Breast Test Wales

# Rhesymau pam mae angen mwy o brofion arnoch chi



GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

icc.gig.cymru/sgrinio-bron-brawf

# Sut mae defnyddio’r daflen hon

Mae hon yn daflen Hawdd ei Deall. Mae’r geiriau’n hawdd eu darllen a’u deall. Mae geiriau anodd mewn **print trwm** y tro cyntaf maen nhw’n cael eu defnyddio.



Efallai y bydd angen cymorth a chefnogaeth arnoch chi i ddarllen a deall y daflen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi’n ei adnabod eich helpu.




Mae’r daflen hon ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys


Rhesymau pam mae angen prawf arall arnoch chi 4


Mynd am mwy o brofion 5

Ynglŷn â’r profion 6

Canlyniadau eich prawf ar y fron 9


Ble alla i gael mwy o wybodaeth? 11

# Rhesymau pam mae angen prawf arall arnoch chi



Gofynnwyd i chi ddod yn ôl am mwy o brofion.

Mae hyn oherwydd bod newidiadau wedi’u darganfod yn y prawf **pelydr-X o’r fron**.



Does dim angen poeni am y rhan fwyaf o newidiadau. Nid yw’r rhan fwyaf o newidiadau yn golygu bod canser y fron arnoch chi. Ond mae angen i ni wneud yn siŵr.



Bydd eich llythyr yn dweud wrthoch chi ble a phryd i fynd ar gyfer eich apwyntiad.



Gall y profion gymryd peth amser.

Gallwch dreulio bore neu brynhawn yn y ganolfan sgrinio.

# Mynd am mwy o brofion




Os oes gennych chi anabledd neu os oes angen cymorth arnoch chi, rhowch wybod i ni cyn eich apwyntiad.



Gall aelod o’r teulu, gofalwr neu weithiwr cymorth ddod gyda chi i’r apwyntiad.



Mae’n haws gwisgo top gyda thrywsus neu sgert.

Mae hyn oherwydd bydd angen i chi dynnu eich top a’ch bra.



Byddwn ni’n cynnal gwahanol brofion. Efallai y bydd angen cynnal rhai o’r profion neu bob un ohonyn nhw.

# Ynglŷn â'r profion



Bydd mwy o brofion pelydr-X o'r fron yn cael eu gwneud.



Byddwn ni'n archwilio eich bronnau am lympiau neu newidiadau.



**Sgan uwchsain -** Byddwn ni'n rhoi ychydig o jel ar eich bron ac yn symud y sganiwr dros y jel.

Bydd hyn yn rhoi llun o'r tu mewn i'ch bron.



**Biopsi** - Bydd darn bach o feinwe yn cael ei gymryd o'ch bron neu gesail. Bydd nodwydd arbennig yn cael ei defnyddio.

Mae **meinwe** yn cynnwys celloedd o dan eich croen.



Byddwch chi'n cael pigiad **anesthetig lleol**.


Bydd hwn yn cael ei roi yn y fron i atal unrhyw boen.



Mae'n ddiogel i'r rhan fwyaf o bobl gael **anesthetig lleol** a **biopsi**.

Bydd y meddyg yn siarad â chi am gael y profion hyn.

# Ynglŷn â'r profion




Weithiau gall problemau godi ar ôl cael **biopsi**. Efallai:

- bydd angen biopsi arall
- byddwch yn cael haint
- byddwch yn cleisio a bydd angen draenio hwn.



Os oes gennych **fewnblaniadau yn y fron**, efallai y byddan nhw'n cael eu niweidio.

Mae mewnblaniadau yn cael eu rhoi yn eich bronnau i newid eu siâp neu eu maint.



Cysylltwch â'ch meddyg neu ffoniwch 111 os ydych chi'n teimlo'n sâl neu os yw eich bron:

- yn boenus
- yn boeth
- yn goch
- wedi chwyddo.

# Canlyniadau eich profion ar y fron



Efallai y cewch chi wybod eich canlyniadau cyn i chi adael y ganolfan sgrinio.




Os byddwch chi'n cael **biopsi**, bydd y canlyniadau'n cymryd hyd at 2 wythnos i'w prosesu.

Byddwch chi'n cael apwyntiad cyn i chi adael.



Bydd gan rai pobl ganser y fron.


Bydd meddyg yn siarad â chi am y driniaeth y gallwch chi ei chael.

Bydd nyrs yn eich cefnogi.



Mae darganfod canser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i chi wella.

# Canlyniadau eich profion ar y fron



Nid yw cael prawf sgrinio yn eich atal rhag cael canser y fron.

Nid yw sgrinio yn darganfod pob canser y fron.



Efallai y byddwch chi'n cael profion ac ni fydd canser y fron arnoch.





Siaradwch â'ch meddyg os byddwch chi'n gweld neu'n teimlo newid yn eich bronnau.

Mae'n bwysig hyd yn oed os ydych chi wedi cael eich sgrinio.

# Ble alla i gael mwy o wybodaeth?

**De-ddwyrain Cymru**

Rhif Ffôn: 029 2039 7222

Minicom: 029 2078 7907

Ebost: sgrinio-bron-de@wales.nhs.uk

**Gorllewin Cymru**

Rhif Ffôn: 01792 459988

Minicom: 01792 453110


Ebost: sgrinio-bron-gorllewin@wales.nhs.uk

**Gogledd Cymru**

Rhif Ffôn: 01492 860888

Minicom: 01492 863503

Ebost: sgrinio-bron-gogledd@wales.nhs.uk




Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu Saesneg. Bydd yn cymryd yr un faint o amser i ni eich ateb yn Gymraeg neu yn Saesneg.




Gallwch ymweld â'n gwefan:

icc.gig.cymru/sgrinio-bron-brawf

I gael mwy o wybodaeth a chymorth am ganser y fron ewch i:
www.breastcancernow.org

Delweddau trwy garedigrwydd:
Freepik
Photosymbols
Adobe
Shutterstock
Bron Brawf Cymru